



## Ysgol y Dderwen

### Polisi Iaith

Yn Ysgol y Dderwen, Cymraeg yw prif gyfrwng holl fywyd a gweithgarwch yr ysgol. Mae'r defnydd o'r iaith Gymraeg gan ddisgyblion, a'r holl aelodau staff o fewn y sefydliad hwn yn greiddiol i'r ethos a'r statws uchel a roddir i'r Gymraeg yn yr ysgol. O'r cychwyn cyntaf byddwn yn gofyn am ymrwymiad llwyr gan rieni i gefnogi eich plentyn i ddefnyddio'r Gymraeg. Gofynnir am yr un ymrwymiad gan eich plentyn yn yr ysgol.

#### **Nod iaith yn yr Ysgol**

Y nod yw sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys sy'n berthnasol i'w hoed er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Cymraeg yw iaith naturiol cyfathrebu yr ysgol, a chynhelir gwasanaethau boreol a gweithgareddau'r ysgol yn bennaf yn y Gymraeg. Dylai'r ddarpariaeth a wneir o fewn yr ysgol sicrhau bod pob plentyn yn medru cyfathrebu yn hyderus yn y ddwy iaith. Sicrheir hefyd bod y plant yn gwbl ymwybodol o etifeddiaeth ddiwylliannol Cymru.

#### **AMCAN CYFFREDINOL**

Mae'r ysgol yn gweithredu polisi dwyieithog a'r nod yw datblygu y disgyblion i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

#### **AMCANION PENODOL**

##### **Dosbarth Meithrin**

Sicrhau, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn eu galluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law.

##### **Cyfnod Sylfaen**

Adeiladu ar y sylfeini a osodwyd i'r Gymraeg drwy addysg feithrin. Cadarnhau a datblygu mamiaith y plentyn o ddysgwyr Cymraeg ac ymestyn gafael y plentyn o gartref Cymraeg ar Saesneg.

##### **Cyfnod Allweddol 2**

Cadarnhau a datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol, er mwyn sicrhau ei fod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd ac yn hyderus yn y ddwy iaith pan fo'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.